

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

6 Tachwedd 2019

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)

Mr A Archer, Dr R Heath Davies, Mr G A Jones, Cynghorydd R
Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.15pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd P Kidney.

2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Orffennaf 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Orffennaf 2019.

4. Materion yn Codi

a) Datganiad Cyfrifon Drafft 2018/19 (Cofnod 5)

Holodd un Aelod a oedd wedi bod yn bosibl newid y teitl 'Incwm a Gynhyrchir yn Lleol' i 'Incwm a Gynhyrchir yn y Parc'. Roedd y Rheolwr Cyllid yn credu bod y teitl wedi'i newid ond y byddai'n gwirio hyn ac yn dod yn ôl at yr Aelod i gadarnhau.

NODWYD.

5. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019.

Gofynnodd yr Aelodau am fanylion nifer o'r damweiniau/digwyddiadau a nodwyd yn y cofnodion, a chyflwynwyd y wybodaeth.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019.



6. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2019/20

Dywedodd y Rheolwr Cyllid wrth y Pwyllgor bod yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn ganlyniad gwaith a gwblhawyd yn erbyn Bloc 1 o gynllun archwilio gweithredol 2019/20. Roedd y gwaith wedi'i gyflawni gan Gateway Assure fel yr Archwilwyr Mewnol, fodd bynnag roedd y cwmni hwnnw bellach wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac wedi trosglwyddo'r gwaith oedd yn weddill i TIAA. Roedd y swyddogion yn hapus i weithio gyda'r cwmni newydd ond roedd hyn wedi golygu mai prin iawn oedd y cyfle i drafod yr adroddiad a baratowyd gan Gateway Assure gyda'r cwmni cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Roedd Meysydd Parcio, Grantiau, Parhad Busnes a Llywodraethu Gwybodaeth wedi'u hadolygu, ac o gymryd i ystyriaeth risg gymharol y meysydd busnes, roedd y gwasanaethau archwilio mewnol wedi dod i gasgliadau cadarnhaol iawn ar y cyfan ynghylch y polisiau, gweithdrefnau a'r gweithrediadau oedd ar waith.

Roedd barn sylweddol wedi'i roi ar gyfer Meysydd Parcio, Grantiau, a Llywodraethu Gwybodaeth. Fodd bynnag barn gyfyngedig a roddwyd i Barhad Busnes gan fod y Cynllun Parhad Busnes wedi dyddio ac angen ei adolygu. Dywedwyd bod y gwaith ar hyn eisoed ar y gweill ac y byddai adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod maes o law.

O ran meysydd parcio, roedd nifer o'r Aelodau yn cytuno ag argymhellion yr Archwilydd y byddai polisi ar feysydd parcio yn ddefnyddiol ac yn sicrhau cysondeb, a hefyd gellid defnyddio'r polisi i egluro i'r defnyddwyr sut fyddai unrhyw incwm sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen i redeg a chynnal y maes parcio yn cael ei ddefnyddio. Roedd Aelodau eraill o'r farn bod ffyrdd eraill o roi cyhoedduswydd i'r neges bod incwm o'r meysydd parcio yn cael ei ddefnyddio i gynnal harddwch y Parc Cenedlaethol, megis datganiad ar gefn y tocyn parcio ei hun. Gofynnodd un Aelod am i gefnogaeth y Pwyllgor i'r argymhelliad hwn gan yr Archwilydd Mewnol gael ei godi yng nghyfarfod yr Awdurdod. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar y Meysydd Parcio, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn cael ei ddwyn gerbron cyfarfod mis Rhagfyr o'r Awdurdod.

NODWYD.



7. Tystysgrif Cynllun Gwella

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn y Dystysgrif Cynllun Gwella gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y dystysgrif yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â gofynion Adran 15(6) i (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac roedd copi o'r Dystysgrif wedi'i atodi i'r Adroddiad.

NODWYD.

8. Amcanion Llesiant 2017/18 Adborth Hunan-Fyfyrio ar gyfer APCAP gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

Dywedwyd bod yr Awdurdod, yn 2019/18, wedi cwblhau Pecyn Cymorth Hunan-Fyfyrio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei Amcanion Llesiant 2017/18. Roedd hyn yn cynnwys asesu perfformiad yn erbyn yr amcanion Llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr Awdurdod bellach wedi derbyn adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei gyflwyniad ac roedd hyn wedi'i atodi i'r adroddiad.

Nododd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth, oherwydd amseriad derbyn yr adborth, nad oedd yn bosibl defnyddio'r adborth i lywio Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni ei Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19, ond byddai'r canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio datblygu Cynllun Corfforaethol 2020/21 ac adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Er bod rhai Aelodau o'r farn bod yr adborth a roddwyd yn eithaf cyffredinol ac y byddai'n well ganddynt gael cyngor mwy penodol ar gamau ymlaen a chamau gweithredu yn y dyfodol oedd yn fwy perthnasol i Ddibenion y Parc, roedd eraill o'r farn bod y diffyg argymhellion yn arwydd cadarnhaol bod yr Awdurdod yn gwneud gwaith da.

NODWYD.

9. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2019.

Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019/20; roedd y Cynllun hwn yn dilyn strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd â saith o amcanion llesiant. Roedd yr Adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd yn hyn hyd at 30 Medi 2019 ac yn cynnwys ystadegau chwarter 1 a 2 (Ebrill – Medi) rhai o'r setiau data.

Aeth y Swyddog rhagddo i dynnu sylw'r Aelodau at adrannau o'r adroddiad gan gynnwys perfformiad cynllunio, addysg a nifer yr ymwelwyr yn y Canolfannau. O ran yr olaf, awgrymodd rhai Aelodau y gallai



ymweliad â Chastell Henllys fod o gymorth i ddeall ffigurau perfformiad y safle yn well. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai hyn yn sicr gael ei drefnu, ac ychwanegodd bod y Rheolwr newydd wedi cyflwyno ei gweledigaeth hithau ar gyfer y safle i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol fis Mehefin eleni a bod copi o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw wedi'u dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor hwn er gwybodaeth. Ychwanegodd y credir bod nifer yr ymwelwyr yn is oherwydd bod y tywydd yn rhy braf i ymweld ag atyniadau o'r math hwn. Eglurwyd canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd; roedd 2 allan o 3 apêl wedi'u gwrthod, a dylai'r ganran yn yr adroddiad fod wedi darllen 66.67% gan ddod â'r ganran o fewn y targed.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am roi gwybodaeth oedd yn cysylltu teithiau cerdded sy'n cael eu lawrlwytho o'r we a ffigurau cyfrifwyr ar y llwybr a atodwyd i'r adroddiad gan fod hyn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Hefyd dywedodd y swyddog, mewn ymateb i gwestiwn, bod amseriad lansio'r wefan newydd yn ansicr, ond y byddai'r wefan yn fyw mewn pryd ar gyfer y tymor newydd yn 2020.

NODWYD.

- 10. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at fis Medi 2019**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad y gyllideb am y chwe mis hyd at 30 Medi 2019. Roedd y gyllideb refeniw net fanwl yn dangos bod gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £2,080k, sy'n £72k o dan y gyllideb proffil, gyda'r rhesymau dros yr amrywiannau wedi'u nodi yn yr adroddiad. Dywedwyd bod Rhagolwg Refeniw 2019/20 yn warged o rhyw £10k yn erbyn gwarged/diffyg cyllideb wreiddiol o ddim. Roedd hyn oherwydd nifer o amrywiannau, gan gynnwys incwm ychwanegol o'r meysydd parcio ac incwm uwch na'r disgwyl yn yr Ystafell De yng Nghaeriw.

Aeth y Prif Weithredwr rhagddo i ddweud bod yr Awdurdod, ers paratoi'r adroddiad, wedi derbyn cyllid cyfalaf o £850,000 gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cais ganddynt am bwysau cyllidebol yr Awdurdod oedd heb ei ariannu, a dderbyniwyd ddiwedd mis Awst. Roedd hyn yn gyllid ar gyfer amryw o brosiectau cyfalaf a amlinellwyd i'r Pwyllgor y dywedwyd wrth swyddogion i ddechrau bod yn rhaid eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2020, er eu bod bellach yn deall bod yn rhaid cychwyn y prosiectau o leiaf erbyn y dyddiad hwnnw.

Roedd yr Aelodau wrth reswm yn falch o dderbyn y cyllid, ac o'r farn mai buddiol fyddai llunio rhestr o brosiectau posibl yn gynharach yn y flwyddyn, a dywedodd y Prif Weithredwr y gellid cychwyn ar y broses hon yn y Gweithdy ar Gyllideb yr Awdurdod fis Rhagfyr.



Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf a'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ond dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r cyllid ychwanegol yn cael effaith ar y ddwy sefyllfa.

NODWYD.

11. Mabwysiadu Egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr yn APCAP

Dywedwyd bod staff yr Awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf wedi dechrau mabwysiadu egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr wrth asesu risg ar ystâd yr Awdurdod; roedd yr egwyddorion hyn wedi'u datblygu gan y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, corff sy'n bodoli ledled y wlad. Yn 2017, comisiynwyd Strategaeth Diogelwch Ymwelwyr, ac roedd drafft o'r ddogfen hon wedi'i hatodi at sylw'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyngor a roddwyd gan y Grŵp, roedd yr Awdurdod wedi ymgorffori prif egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr ym mhob polisi cyfredol perthnasol. Er mwyn ymgorffori'r egwyddorion hyn, oedd yn cynnig dulliau ymarferol tuag at ddiogelwch, yn yr asesiadau o risg safleoedd, roedd Asesiad Risg Diogelwch Ymwelwyr newydd wedi'i ddatblygu, a'r bwriad oedd creu'r cyfryw asesiadau ar gyfer y prif safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod.

Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau bod staff yr Awdurdod yn aelodau gweithgar o'r Grŵp ac yn cymryd rhan mewn gweithdai rheolaidd gyda sefydliadau tebyg ledled y DU ac Iwerddon oedd wedi gwella gwybodaeth ac arbenigedd y staff o ran rheoli Diogelwch Ymwelwyr.

O ran ennyn ymwybyddiaeth o beryglon yn yr amgylchedd naturiol, awgrymodd yr Aelodau y gellid cymryd agwedd ragweithiol gydag amrywiol gyrff allanol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol bod nifer o ffyrdd y gellid cyfleu'r negeseuon i'r cyhoedd, fyddai'n cynnwys gwahanol rannau o'r Awdurdod. Hyd yn hyn roedd y gwaith wedi canolbwyntio ar brosesau mewnol, fodd bynnag, wrth symud ymlaen, byddai'r Strategaeth wedi'i hymgorffori yng nghynlluniau pob tîm perthnasol ar draws yr Awdurdod. Y Grŵp lechyd a Diogelwch fyddai'n arwain y gwaith hwn, o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Personél newydd.

Yn olaf gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Strategaeth Diogelwch Ymwelwyr yn cael ei mabwysiadu gan fod y Strategaeth yn cynnwys dyfrnod 'Drafft', a dywedwyd wrthynt bod Tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod wedi cytuno ar y Strategaeth fis Mehefin 2018 ac mai camgymeriad oedd cynnwys y dyfrnod.

NODWYD.



12. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid na fu unrhyw newidiadau i'r gofrestr ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Fodd bynnag dywedodd bod risg ychwanegol wedi'i hychwanegu i'r gofrestr ers llunio'r adroddiad ynglŷn â'r Clefyd Coed Ynn. Hefyd dywedodd bod yr Archwilwyr Mewnol newydd wedi adolygu'r Gofrestr ac y byddai eu hargymhellion yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd angen diweddarau Risg 1, risg tymor byr o lai o gyllid, yng ngoleuni'r cyhoeddiad diweddar am gyllid cyfalaf. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud ei fod o'r farn, hyd nes derbyn cyllideb y flwyddyn nesaf, y byddai'n rhy gynnar ar hyn o bryd i newid y Gofrestr. Hefyd gofynnwyd a oedd y risgiau sy'n gysylltiedig â pharhad busnes (megis Risgiau 18, 21 a 22) wedi'u diweddarau yng ngoleuni'r Adroddiad Archwilio Mewnol a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod (y mae Cofnod 6 yn cyfeirio ato). Atebodd y swyddogion bod mesurau eisoes ar waith i reoli'r risgiau hynny, a bod gwaith ar y Cynllun Parhad Busnes ar y gweill; felly ni farnwyd bod angen diweddariadau ar hyn o bryd. Yn olaf, gofynnodd yr Aelodau am i'r camau lliniaru a monitro o amgylch y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (Risg 40) gael eu diweddarau yng ngoleuni'r gwaith oedd wedi'i wneud yn ystod y misoedd diwethaf.

NODWYD.

13. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

14. Gair o Ddiolch

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor i Mr A Archer fod yn bresennol gan fod ei dymor yn ei swydd gyda'r Awdurdod yn dod i ben ar 30 Tachwedd, diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaeth, gan ddweud mai pleser oedd gweithio gydag ef ac y byddai'n gweld eisiau ei gyngor doeth. Dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol.

